

Ysgol Gymuned Bodffordd
Bodffordd
Llangefni
LL77 7LZ

21/10/2026

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Medi 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymuned Bodffordd yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu a siarad gyda disgyblion a staff. Cafwyd cyfle i graffu ar ddogfennaeth a samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Cynllunio dilyniant effeithiol ym medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol

- Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cynnal cwricwlwm eang a diddorol sy'n darparu cyd-destunau buddiol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio i ddatblygu continwwm ysgrifennu estynedig ar gyfer yr ystod oedran a gallu. Mae llawer o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu i ystod o bwrpasau gan ddangos dealltwriaeth gadarn o nodweddion ffurfiau. Er enghraifft, maent yn cynllunio ac ysgrifennu straeon difyr am wiwerod coch Ynys Môn.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 4, 5 a 6 yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn fuddiol yn y ddwy iaith, tuag at ddibenion gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig yn effeithiol mewn ystod dda o ffurfiau ar draws y cwricwlwm.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau mathemateg. Maent yn defnyddio adnoddau ymarferol i ddyfnhau eu dealltwriaeth ac yn cymhwyso eu dysgu mewn heriau annibynnol. Ar adegau, mae gorddefnydd o fframweithiau parod yn tueddu i gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu hyd eithaf eu gallu. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemateg ac maent yn eu cymhwyso'n effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

- Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn fwriadus ac yn eu herio yn gyson.

Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

- Mae'r athrawon yn defnyddio holi treiddgar ac adborth llafar buddiol sy'n canolbwyntio'n briodol ar y camau nesaf yn y dysgu, gan ymateb i unrhyw wallau neu ddiffyg hyder ymysg disgyblion. Yn ogystal, maent yn herio'r disgyblion i ddatblygu eu gwaith ymhellach er mwyn meithrin dycnwch ac annibyniaeth.
- Mae disgyblion hŷn yn y dosbarth dysgu sylfaen yn dechrau deall pwysigrwydd ymateb i feini prawf llwyddiant syml wrth ddatblygu hyder i werthuso eu gwaith eu hunain.
- Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu hyder cynyddol i ymateb i adborth a gynigir gan staff. Mae'r athrawon yn canolbwyntio'n effeithiol ar yr agwedd sydd angen ei datblygu gan roi sylw i feini prawf llwyddiant cytunedig ar gyfer gwahanol dasgau. Mae'r gweithgareddau yn aml wedi eu graddoli yn ôl lefel yr her, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn egluro'n aeddfed yr hyn mae gwahanol dasgau yn disgwyl iddynt ei gyflawni.
- Mae'r athrawon a'r staff yn defnyddio codau marcio priodol er mwyn i'r disgybl ddeall y camau nesaf wrth ddatblygu elfennau o'i waith. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn datblygu eu gwaith yn sgil adborth, gan gynnwys cyfoethogi'r testun gan ddefnyddio technegau llenyddol.
- Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion i werthuso gwaith eu cymheiriaid yn datblygu'n briodol ac yn elfen mae arweinwyr wedi ei hadnabod yn faes i'w ddatblygu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602133>

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Yn gywir



Liz Miles

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.